Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Rhyd Y Llan, Llanfaethlu
# Ysgol Rhyd Y Llan
# Llanfaethlu
# Ynys Mon
# LL65 4PQ

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/06/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Rhyd y Llan. Mae'n cyfarfod mewn ystafell ddynodedig yn Ysgol Rhyd y Llan, ysgol newydd a agorwyd ym Medi 2017 ym mhentref Llanfaethlu, Sir Fôn.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 22 o blant rhwng dwy a hanner a thair oed. Mae'r ymarferwyr yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar i saith plentyn sydd yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol rhwng Ionawr a Gorffennaf. Mae'r lleoliad ar agor yn ystod tymor yr ysgol rhwng 9yb a 11.30yb ar ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener.

Mae'r lleiafrif o'r plant yn dod o gartrefi sy'n siarad Cymraeg. Ar hyn o bryd, does dim plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad.

Mae tri aelod o staff, gan gynnwys yr arweinydd a myfyrwraig, yn gweithio gyda'r plant. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd ym Medi 2017 pan agorwyd y lleoliad ar y safle newydd.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Ionawr 2018 a gan Estyn ym mis Mai 2012.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- bron bob un o'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn datblygu perthynas gref gyda'r plant eraill a'r ymarferwyr.
- rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn
- iaith lafar bron bob un plentyn yn datblygu'n effeithiol
- medrau rhifedd y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n llwyddiannus
- bron bob un plentyn yn ymddwyn yn dda
- bron bob un plentyn yn dilyn cyfarwyddiadau yn effeithiol
- y lleoliad yn darparu ystod ddiddorol a chyfoethog o brofiadau dysgu
- y lleoliad yn trefnu nifer diddorol o ymwelwyr ac ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant
- ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd yn dda er lles y plant
- ymarferwyr yn cynnig profiadau rheolaidd a buddiol i hybu medrau corfforol y plant
- ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal i'r holl weithgareddau

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd a phwyllgor y lleoliad weledigaeth gref ar gyfer darparu addysg gynnar cyfrwng Cymraeg o safon uchel
- pawb yn cydweithio'n llwyddiannus fel tîm ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda
- yr arweinydd a'r ymarferwyr yn barod iawn i dderbyn cyngor ac arweiniad ac yn ymateb yn gadarnhaol i syniadau ar gyfer gwella ansawdd eu gwaith
- y lleoliad yn cydweithio'n fuddiol gydag ystod o bartneriaid ac asiantaethau allanol
- gan y lleoliad gyswllt agos gyda'r ysgol gynradd

## Argymhellion

A1 Cynllunio’n fwriadus i alluogi’r holl blant i gymhwyso eu medrau’n gynyddol ar draws y chwe maes dysgu

A2 Darparu cyfleoedd rheolaidd i’r plant ddatblygu a dilyn eu diddordebau eu hunain

A3 Gwreiddio’r gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn sicrhau gwelliannau effeithiol a pharhaus

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol, a'u medrau iaith.

Mae dros hanner y plant yn cychwyn yn y lleoliad heb fedrau Cymraeg. Mae iaith lafar bron pob un yn datblygu'n effeithiol, er enghraifft wrth ddilyn cyfarwyddiadau yn ddidrafferth wrth fynd i nôl bag ffa o liw penodol o dan y parasiwt. Maent yn defnyddio geirfa briodol i ddisgrifio siwrne cymeriadau Jac y Jwc a Jini 'i fyny' ac 'i lawr' y ffyrdd. Mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n siarad Cymraeg gartref yn defnyddio geirfa addas wrth chwarae ac yn siarad yn hyderus mewn brawddegau, er enghraifft wrth sôn am y 'tractor mawr glas'. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau arbrofi gyda chreu marciau ac mae llawer yn creu marciau i bwrpas. Mae bron pob un yn gwrando'n astud ar stori, gan ymuno i adrodd rhannau cyfarwydd yn hwyliog. Mae llawer yn dewis llyfrau yn annibynnol ac yn eu trin yn ofalus, gan ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n effeithiol. Mae bron pob un yn cyfrif at bump yn hyderus, er enghraifft wrth ganu cân am bump jac-y-do. Mae ychydig o blant mwy galluog yn adnabod rhifau un i dri ac yn cyfrif at o leiaf ddeg yn gywir a chyson. Mae bron pob plentyn yn cyfatebu lliwiau'n briodol wrth chwarae gyda botymau Sali Mali. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio iaith gymharol wrth ddewis potel 'mawr' neu 'bach' yn y twb dŵr.

Ar y cyfan, mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o'r plant yn datblygu'n fuddiol. Er enghraifft, maent yn gallu trin y camera digidol yn hyderus i dynnu llun o'u gwaith ac yn rheoli tegan rheolaeth bell yn gynyddol effeithiol. Trwy sesiynau wythnosol yn y neuadd a chyfleoedd dyddiol yn yr ardal allanol, mae bron pob plentyn yn datblygu medrau corfforol cadarn iawn. Maent yn rhedeg ac yn neidio'n fedrus ac yn datblygu rheolaeth dda wrth reidio beic. Mae gallu'r rhan fwyaf i drin offer bach fel sisyrnau a phegiau yn datblygu'n gynyddol effeithiol wrth iddynt ymarfer.

Mae llawer o blant yn dechrau datblygu eu medrau creadigol yn briodol. Pan gânt y cyfle, mae'r rhan fwyaf yn arbrofi'n hyderus gyda glud a phapur mân, ac yn creu lluniau gyda phaent o fewn tasgau cyfyngedig.

**Lles: Da**

Mae bron bob un o'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn datblygu perthynas gref gyda'r plant eraill a'r ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf yn awyddus i ymuno yn y gweithgareddau ac yn dangos diddordeb yn y tasgau. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i brofiadau newydd gan siarad yn frwdfrydig am ymweliad diweddar â chaffi lleol. O ganlyniad, maent yn datblygu agweddau buddiol tuag at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu'r gallu i ganolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau estynedig yn effeithiol, er enghraifft wrth dynnu llun ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol neu lenwi a gwagio cynhwysyddion o wahanol faint yn y twb dŵr.

Trwy gydol y sesiwn, mae bron pob un o’r plant yn dilyn cyfarwyddiadau’r ymarferwyr yn effeithiol ac yn ymddwyn yn dda. Mae’r rhan fwyaf yn ystyriol a chwrtais, er enghraifft wrth ddiolch am ddiod amser byrbryd neu wrth gydchwarae ar y si-so yn yr ardal allanol. Maent yn datblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus wrth wisgo ar gyfer y sesiwn ymarfer corff a golchi’r llestri ar ddiwedd amser byrbryd. Mae annibyniaeth gynyddol ac ymddygiad cadarnhaol y plant yn nodweddion cryf o’r ddarpariaeth.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn darparu ystod ddiddorol a chyfoethog o brofiadau dysgu sy’n seiliedig ar themâu perthnasol, gan gynnwys ‘Y Fferm’ a ‘Sali Mali’. Mae’r rhain yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus. Mae’r themâu yn arwain at weithgareddau a phrofiadau dysgu symbylol sydd yn bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Er enghraifft, darperir cyfleoedd ymarferol i’r plant gymhwyso a datblygu eu medrau trwy baratoi cawl, plannu yn yr ardd a gwneud bwyd i’r adar. Mae’r arweinydd yn cynllunio’n ofalus gan ddefnyddio canllawiau’r awdurdod i sicrhau bod y plant yn derbyn profiadau ar draws y chwe maes dysgu. Wrth werthuso’r cynlluniau wythnosol, mae’r ymarferwyr yn dechrau nodi camau nesaf y plant. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio bob tro’n sicrhau cynnydd systematig o ran gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y plant.

Mae’r lleoliad yn blaenoriaethu datblygu medrau iaith a rhifedd y plant yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ystod fuddiol o straeon a chaneuon i ehangu geirfa’r plant yn gyson, ac ystod dda o gyfleoedd i gryfhau eu dealltwriaeth o rif. Mae ymarferwyr hefyd yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau corfforol y plant tu mewn a thu allan ac yn rhoi sylw addas i ddatblygu medrau creadigol y plant. Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd rheolaidd i’r plant ddatblygu eu medrau TGCh trwy arbrofi ag adnoddau fel tegan rhaglenadwy, bwrdd gwyn rhyngweithiol a chamera digidol.

Trwy weithgareddau symbylol a hwyliog, mae’r lleoliad yn datblygu gwybodaeth y plant o’r byd o’u cwmpas yn effeithiol. Darperir cyfleoedd amrywiol iddynt ddechrau dysgu dangos parch tuag at bobl o wahanol gefndiroedd diwylliannol, er enghraifft trwy ddathlu Diwalli a’r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae’r ethos Cymreig naturiol o fewn y lleoliad yn gryfder.

Mae’r lleoliad yn trefnu nifer diddorol o ymwelwyr ac ymweliadau i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant o fewn y gwahanol themâu. Er enghraifft, sbardunwyd chwilfrydedd y plant am ddinosoriaid yn dilyn ymweliad ag amgueddfa leol yn ddiweddar.

**Addysgu: Da**

Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol fel tîm ac yn cefnogi ei gilydd yn dda er lles y plant. Maent yn rheoli ymddygiad yn gadarnhaol ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob un plentyn. Un o gryfderau’r lleoliad yw’r modd y mae’r ymarferwyr yn modelu’r Gymraeg ac yn trochi’r plant yn yr iaith gan sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd buddiol. Maent yn siarad â’r plant yn gyson, gan rannu gwybodaeth a chynnig cyfleoedd iddynt ymateb i gwestiynau gan ymestyn eu medrau meddwl yn llwyddiannus.

At ei gilydd, mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen a datblygiad plant. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r plant ddysgu yn yr ardal allanol ac yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu'r medrau plant yn yr ardal hon, er enghraifft wrth sicrhau bod y plant yn profi'r rhew ar fore oer. Mae'r ymarferwyr yn arwain tasgau yn fedrus er mwyn dysgu cysyniadau a medrau newydd i'r plant. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n darparu digon o gyfleoedd i'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain ac arbrofi yn annibynnol yn yr holl ardaloedd dysgu.

Mae'r ymarferwyr yn arsylwi'r plant yn rheolaidd gan asesu eu medrau personol a chymdeithasol, mathemateg, iaith a llythrennedd a chorfforol. O ganlyniad, maent yn adnabod y plant yn dda ac yn dechrau ymateb i'w gofynion unigol yn briodol wrth gyflwyno'r tasgau ffocws. Maent yn defnyddio proffil y cyfnod sylfaen i gadw cofnod buddiol o gynnydd y plant. Mae rhieni'n derbyn gwybodaeth werthfawr am gynnydd eu plant yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad trwy sgyrsiau anffurfiol wrth y drws, ac yn ystod sesiynau arbennig ddwywaith y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r plant wrth eu boddau yn cael cyfle wythnosol i gymryd rhan mewn gweithgaredd ymarfer corff yn neuadd yr ysgol. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o asiantaethau allanol i atgyfnerthu arferion byw'n iach yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn cynllun i addysgu'r plant am bwysigrwydd glanhau dannedd. Mae'r lleoliad yn dechrau dysgu'r plant yn addas am sut i weithredu'n gynaliadwy trwy ddefnyddio bin ailgylchu ar gyfer y gwastraff bwyd.

Mae trefniadau effeithiol yn eu lle ar gyfer datblygiad moesol, ysbrydol a chymdeithasol y plant. Er enghraifft, mae'r amser byrbryd yn cynnig cyfle gwerthfawr i'r plant ddysgu sut i gymdeithasu gyda'i gilydd ac i gymryd cyfrifoldeb trwy weithredu fel 'helpwr heddiw'. Mae llawer o gyfleoedd buddiol i ddatblygu syndod a rhyfeddod y plant am y byd o'u cwmpas wrth iddynt hel mwyar duon, synnu ar y rhew ar y llithren, a chwarae gyda dail yr hydref. Trwy werthfawrogi cyfraniad bob plentyn, mae'r ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel dangos parch tuag at ei gilydd yn llwyddiannus. Ar y cyfan, mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd addas ar gyfer datblygiad diwylliannol y plant.

Mae prosesau cadarn gan y lleoliad i ymateb i anghenion plant ac anghenion dysgu ychwanegol, yn ôl yr angen. Mae trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae awyrgylch croesawgar, cynnes a chynhwysol yn y lleoliad, ac mae pob plentyn yn cael eu parchu. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael mynediad cyfartal i'r holl weithgareddau.

Mae'r plant yn elwa o gyflenwad buddiol o adnoddau pwrpasol ac atyniadol sydd yn ymateb i'w hanghenion yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau diddorol i gefnogi'r themâu, er enghraifft gwely i Sali Mali yn yr ardal byd bach, ac esgidiau mawr a bach yn yr ardal darganfod. Ers iddynt symud i'w safle newydd, mae'r

ymarferwyr wedi arbrofi â threfn yr amgylchedd dysgu er mwyn sicrhau'r profiad gorau i'r plant. O ganlyniad, ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau ac ardaloedd dysgu o fewn gafael y plant. Fodd bynnag, nid yw'r holl ardaloedd bob tro wedi'u gosod mewn ffordd sy'n caniatáu i'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain ac ymgolli yn eu gwaith yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn cynnwys gwaith y plant mewn arddangosfeydd lliwgar sydd yn dathlu'u llwyddiannau'n dda. Maent hefyd yn darparu digon o gyfleoedd i'r plant weld rhifau a phrint yn yr amgylchedd er mwyn cefnogi eu medrau darllen a rhifedd cynnar. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r ardal allanol helaeth yn ddyddiol ac yn datblygu'r ddarpariaeth yno yn frwdfrydig. Er enghraifft, maent wedi ychwanegu cegin fwd yn ddiweddar sydd yn boblogaidd iawn gyda'r plant, ac yn meithrin eu medrau meddwl a chymdeithasol yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn lân. Mae ymwelwyr ac ymweliadau i leoliadau lleol, gan gynnwys fferm a chaffi cyfagos, yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn hynod effeithiol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd a phwyllgor y lleoliad weledigaeth gref i ddarparu addysg gynnar cyfrwng Cymraeg o safon uchel ar gyfer y gymuned ar safle'r ysgol newydd. Ers ei phenodiad yn ddiweddar, mae'r arweinydd wedi cynnig arweiniad effeithiol i'r ymarferwyr, gan osod safonau a disgwyliadau uchel. Mae hi'n rheoli gwaith y lleoliad yn drefnus a chydwybodol gan hyrwyddo a chynnal gwelliannau'n effeithiol. Ynghyd â'r pwyllgor, mae hi wedi llwyddo i greu ethos gweithgar lle mae'r ymarferwyr a'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. O ganlyniad, mae pawb yn cydweithio'n hapus fel tîm ac yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau'n dda. Mae hyn yn sicrhau rhediad effeithiol i'r sesiynau a bod y plant yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae'r arweinydd yn cyfathrebu'n effeithiol a chyson gyda'r ymarferwyr yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Trwy gadw cofnodion cryno o'r cyfarfodydd rheolaidd, mae'n gallu sicrhau atebolrwydd ac olrhain cynnydd yn effeithiol. Mae prosesau rheoli perfformiad priodol ar waith yn y lleoliad sydd yn cyfrannu'n werthfawr at rannu syniadau a sicrhau disgwyliadau uchel ymysg y staff. Mae'r lleoliad yn rhoi sylw buddiol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent yn canolbwyntio'n effeithiol ar hybu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y plant ac yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i'r plant ddysgu yn yr ardal allanol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer adnabod yr hyn y maent yn ei wneud yn dda a'r hyn sydd angen ei wella yn datblygu'n gadarn. Mae'r arweinydd yn dilyn cyngor ac arweiniad athrawes ymgynghorol y sir yn effeithiol er mwyn arfarnu gwaith y lleoliad yn ddiweddar. Mae hyn yn cynnwys casglu barn a sylwadau rhieni am y lleoliad trwy holiaduron priodol. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn dechrau dod i ddeall ei gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn effeithiol. Mae hyn wedi arwain at benodi blaenoriaethau priodol sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth yn barod. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn cynnig profiadau mwy ysgogol yn yr ardal allanol, gan

gynnwys cyfleoedd i'r plant blannu a garddio. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn barod iawn i dderbyn cyngor ac arweiniad ac maent yn ymateb yn gadarnhaol i syniadau ar gyfer gwella ansawdd eu gwaith. Maent yn cydweithio'n effeithiol ag athrawes ymgynghorol ac yn gweithredu'n brydlon ar unrhyw gyngor neu argymhelliad. Mae arferion gwella ansawdd parhaus yn amlwg yn y lleoliad, er enghraifft wrth i'r ymarferwyr werthuso'r cynlluniau wythnosol. Mae ymagwedd gadarnhaol y pwyllgor rheoli tuag at sicrhau darpariaeth o ansawdd da wedi cyfrannu'n llwyddiannus at sefydlu'r lleoliad ar y safle newydd.

Mae gan y lleoliad gynllun gwella priodol sydd yn cynnwys targedau pwrpasol. Mae'r cynllun yn nodi costau, cyfrifoldebau yn ogystal ag amserlen weithredu addas. Fodd bynnag, nid yw'r staff presennol wedi cael digon o amser i werthuso cynnydd yn erbyn y meini prawf yn ystyrlon eto.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n fuddiol ag ystod o bartneriaid ac asiantaethau sy'n cyfrannu'n effeithiol at godi safonau a lles y plant.

Mae perthynas dda rhwng yr holl staff a rhieni'r plant. Mae'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r lleoliad yn rheolaidd trwy gyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau, er mwyn sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o'r hyn y mae eu plant yn ei ddysgu. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol wrth ddrws y lleoliad ac mewn cyfarfodydd ar ddechrau a diwedd y flwyddyn i drafod cynnydd y plant.

Mae gan y lleoliad gyswllt agos â'r ysgol gynradd. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at brofiadau'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn elwa o'r defnydd cyson o neuadd yr ysgol ar gyfer gwersi ymarfer corff, ac yn datblygu eu hunanhyder wrth gymryd rhan yng nghyngerdd Nadolig yr ysgol. Yn ogystal, mae'r bartneriaeth yn cynnig anogaeth a chefnogaeth werthfawr i'r arweinydd.

Mae'r bartneriaeth â'r athrawes ymgynghorol a'r awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth y lleoliad. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn elwa'n fawr wrth fynychu hyfforddiant yr awdurdod lleol. Mae'r lleoliad yn manteisio'n dda ar gyfleoedd a ddarperir gan y Mudiad Meithrin i gyfoethogi profiadau'r plant, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog fel y 'parti pyjamas'.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r arweinydd a'r pwyllgor yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cefnogi'r dysgu'n fedrus gan wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd. Trwy'r system rheoli perfformiad, mae'r arweinydd a'r pwyllgor yn nodi anghenion datblygu'r staff yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd addas iddynt ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r lleoliad wedi elwa o hyfforddiant gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, er enghraifft trwy atgyfnerthu ymrwymiad yr ymarferwyr i'r dull trochi iaith a'u cefnogi i ddethol adnoddau yn ofalus ar gyfer yr ardaloedd.

Mae'r arweinydd yn sicrhau bod gan y lleoliad gyflenwad da o gyfarpar dysgu priodol a symbylol.  Mae'r rhain yn cynnwys llyfrau deniadol, parasiwt lliwgar ac adnoddau wedi'u gweu yn y caffi a'r ardal byd bach.

Mae trysorydd y pwyllgor yn rheoli'r gyllideb yn systematig a chywir gan wneud defnydd buddiol o ganllawiau Mudiad Meithrin. Yn sgil safonau cadarn y plant, y ddarpariaeth effeithiol a'r arweinyddiaeth bwrpasol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |